Undeb Myfyrwyr PCYDDS

UWTSD Students' Union



# DOD YN YMDDIRIEDOLWR

# UNDEB Y MYFYRWYR YN ÔL NIFEROEDD

**15,630 o Aelodau**

**25 o Swyddogion**

**24 Staff**

**5 Campws**

**4 Llywydd**

## DOD YN YMDDIRIEDOLWR

# Dewch yn Ymddiriedolwr i ni dros Bobl a Diwylliant a rhannwch eich arbenigedd a'ch profiad

Wedi'i sefydlu ar draddodiad a chynhwysiant, mae Undeb Myfyrwyr Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant yn sefyll fel esiampl o eiriolaeth a chyfleoedd i fyfyrwyr.

**Gyda hanes cyfoethog yn dyddio'n ôl i'w sefydlu fel y brifysgol hynaf yng Nghymru a'r drydedd hynaf yn y DU,** y tu ôl i Rydychen a Chaergrawnt, mae PCyDDS yn ymgorffori ymrwymiad i feithrin rhagoriaeth. Gan ymestyn dros bum safle ledled Cymru a Lloegr, mae presenoldeb traws-genedlaethol unigryw'r undeb yn tanlinellu ei ymroddiad i wasanaethu poblogaethau myfyrwyr amrywiol.

**Wrth galon cenhadaeth UM Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant, mae tri philer craidd: Llais Myfyrwyr, Cyfleoedd Myfyrwyr, a Chynghori Myfyrwyr.** Â ffocws ar gynyddu lleisiau myfyrwyr, mae'r undeb yn grymuso ei aelodau i lunio eu profiad prifysgol a chreu newid ystyrlon. Trwy bresenoldeb ar-lein deinamig, mae Undeb Myfyrwyr PCyDDS yn hwyluso ymgysylltiad cymunedol a bywyd myfyrwyr bywiog y tu hwnt i'r ystafell ddosbarth. Dan arweiniad Swyddogion Sabothol ymroddedig, ynghyd â Phrif Weithredwr a Bwrdd Ymddiriedolwyr blaengar, mae'r undeb yn hyrwyddo arweinyddiaeth a chydweithio â myfyrwyr i wireddu ei genhadaeth gyffredinol.

**Yn ganolog i'w ethos mae'r ymrwymiad diwyro i berthynas symbiotig â Phrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant.** Gyda thryloywder a deialog adeiladol yn graidd iddo, mae'r undeb yn cynnal sianel agored ar gyfer adborth a chydweithio, gan ysgogi gwelliant parhaus ym mhrofiad y myfyrwyr. O eirioli dros welliannau ym mywyd y campws i ddathlu llwyddiannau a rennir, mae'r bartneriaeth ddeinamig rhwng y brifysgol ac Undeb Myfyrwyr Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant yn dyst i'w hymroddiad ar y cyd i feithrin amgylchedd lle mae pob myfyriwr yn ffynnu.
















PWY YDYN NI

# Ni yw'r *bobl mewn porffor* sydd yma i helpu pob myfyriwr yn y Drindod Dewi Sant i gael yr *amser gorau yn y brifysgol*

O'r cais i'r graddio, rydym wrth eu hymyl trwy gydol eu taith fel myfyriwr. Trwy ein gwasanaethau, byddwn yn helpu myfyrwyr i gysylltu, darganfod pwy ydyn nhw, a dod o hyd i'w lle yn PCyDDS a'r byd.

Rydym yn sefydliad sy'n falch o gael ei arwain gan fyfyrwyr, gyda 15,630 o aelodau[1] - (mae pob myfyriwr cofrestredig yn dod yn un o'n haelodau'n awtomatig). Rydyn ni eisiau iddyn nhw feddwl amdanom ni fel eu ffrind profiadol: y person y gallan nhw droi ato mewn amrantiad i gael eu grymuso, eu hysbrydoli, eu difyrru, neu, os bydd byth angen help arnyn nhw.

Mae aelodaeth am ddim ac yn llawn potensial o'r gwasanaethau rydyn ni'n eu cynnig. Yn arwain ein gwaith mae ein timau Llais, Cyfleoedd, a Chynghori - pob un yn cyfrannu mewn ffyrdd ystyrlon i wella profiad myfyrwyr yn y Drindod Dewi Sant yn ystod eu taith fel myfyrwyr.

Rydym yn elusen gofrestredig[2] ac yn gwmni cyfyngedig3 sy'n gweithio'n agos gyda'r brifysgol - ond nid ydym yn rhan ohonyn nhw - i sicrhau bod pethau'n cael eu gwneud er budd gorau ein haelodau.



1. Data o Adroddiad Blynyddol Cydraddoldeb ac Amrywioldeb 2024 PCyDDS.
2. Registered Charity in England & Wales: 1157951
3. Company Limited by Guarantee: 09103924




**Yn 2025, fe wnaethon ni gyflawni ein sgôr boddhad myfyrwyr uchaf erioed, sef 80.6% yn yr Arolwg Cenedlaethol o Fyfyrwyr 2025 - mae hyn yn golygu ein bod ni'n ail yng Nghymru fel Undeb Myfyrwyr.**

# FFEITHIAU UNIGRYW AM PCyDDS

## Campysau Ledled y DU

Campysau Ledled y DU. Mae gan PCyDDS gampysau yng Nghaerdydd, Caerfyrddin, Llundain, Birmingham ac Abertawe.

## Y Maes Pwnc Mwyaf

Busnes a Rheolaeth yw'r maes pwnc mwyaf yn PCyDDS, gyda 6,050 o fyfyrwyr cyfwerth â llawn-amser yn 2023/24.

## Mwyafrif Myfyrwyr Hŷn

Mae corff myfyrwyr PCyDDS yn sylweddol hŷn na chyfartaledd y sector. Mae 86% o'r myfyrwyr sy'n fenywod yn y Drindod Dewi Sant yn hŷn, sy'n sylweddol uwch na chyfartaledd Cymru (68%) a'r DU (63%). Ac mae 80% o'r myfyrwyr sy'n ddynion yn y Drindod Dewi Sant yn hŷn, sydd unwaith eto'n uwch na chyfartaledd Cymru (64%) a'r DU (62%).

## Rhaglenni Ôl-raddedig a Addysgir

Mae gan Addysg ac Addysgu un o'r cyfrannau uchaf o fyfyrwyr sydd wedi cofrestru mewn rhaglenni Ôl-raddedig a Addysgir yn PCyDDS.

## Fyfyrwyr ag Anableddau

Nodwyd hefyd bod yna gyfradd sylweddol uwch o Fyfyrwyr ag Anableddau yn PCyDDS (18.4%) o gymharu â Chymru (10.8%) a'r DU (11.2%). Gyda chyfran y myfyrwyr sy'n datgan dau gyflwr neu fwy yn sefyll ar 23% - sy'n sylweddol uwch na meincnodau Cymru (18%) a'r DU (19%).

Data o Adroddiad Blynyddol Cydraddoldeb ac Amrywioldeb 2024 PCyDDS.



# Dewch i adnabod ein Bwrdd

## NEGES GAN EIN CADEIRYDD

**Diolch am dreulio amser yn lawrlwytho'r pecyn ar gyfer ymgeiswyr. Mae UM PCyDDS yn gweithio'n galed i gyflwyno Llais Myfyrwyr, Cyfleoedd Myfyrwyr, a Chyngor i Fyfyrwyr ar draws 5 safle ac ar-lein. Mae'r Undeb yn cael ei arwain yn wleidyddol gan ein Swyddogion Sabothol (Arweinwyr Myfyrwyr) a'i reoli gan y Prif Weithredwr dan gyfarwyddyd Bwrdd yr Ymddiriedolwyr.**

Mae gan ein Prifysgol hanes balch o fod y brifysgol hynaf yng Nghymru (y drydedd hynaf yn y DU ar ôl Rhydychen a Chaergrawnt). Mae ganddi hefyd hanes o roi cyfle i'r rhai nad ydynt bob amser wedi cael cyfle neu ail gyfle i fod y fersiwn orau ohonynt eu hunain. Gyda thri safle yng Nghymru a dau yn Lloegr, rydym mewn sefyllfa unigryw fel undeb myfyrwyr o fod yn draws-wladol.

Mae Bwrdd yr Ymddiriedolwyr wedi rhoi cyfarwyddyd cryf y dylai'r ffocws fod bob amser ar lesiant aelodau a staff Undeb y Myfyrwyr. Mae Bwrdd yr Ymddiriedolwyr wedi gweld gwelliant amlwg yn sefyllfa gyllidol Undeb y Myfyrwyr, gydag arian dros ben erbyn hyn. Ar hyn o bryd, mae'r Bwrdd yn cynnwys amrywiaeth o aelodau medrus o arbenigwyr addysg uwch i Gyllid. Rydym yn chwilio am ymddiriedolwr allanol arall i ymuno â'r Bwrdd fel ymddiriedolwr Pobl a Diwylliant; disgwylir i'r person yma gadeirio'r is-bwyllgor 3 gwaith y flwyddyn.

Mae gan Undeb y Myfyrwyr berthynas gref â'r Brifysgol; nid yw ein harweinwyr myfyrwyr yn swil ynglŷn â dweud wrth y brifysgol am yr hyn a allai wella profiad y myfyrwyr ac nid ydynt yn swil chwaith wrth ganmol gwaith da. Mae'r ddeinameg rhwng y brifysgol ac Undeb y Myfyrwyr yn tyfu'n gryfach wrth i ni barhau i gydweithio i wneud cyfnod pob myfyriwr yn PCyDDS y gorau y gall fod.

Os ymunwch â ni, byddwch yn dysgu llawer mwy am yr hyn mae'n ei olygu i fod yn elusen sy'n gweithio mewn Addysg Uwch ar draws ffiniau; fe welwch rai o'r cyfleoedd heriol y mae Undeb y Myfyrwyr yn eu hwynebu, a gobeithio y cewch chi ychydig o hwyl hefyd!



**John Wallace**

Cadeirydd y Bwrdd

# Strwythur Ein Bwrdd

**Mae Bwrdd yr Ymddiriedolwyr yn bodoli i sicrhau bod Undeb y Myfyrwyr yn cael ei redeg yn iawn,** ei fod yn gofalu am ei adnoddau a'i bobl ac yn gweithio er budd myfyrwyr yn PCyDDS. Bydd ymddiriedolwyr yn ymuno â'r Bwrdd i helpu ag arwain a llunio gwaith y mudiad, i fonitro ei berfformiad, ei gydymffurfiaeth gyfreithiol a'i helpu i gynllunio'n effeithiol.

**Mae gan ein Bwrdd Ymddiriedolwyr gyfrifoldeb cyffredinol am sefydlogrwydd ariannol a chyfreithiol Undeb y Myfyrwyr.** Mae'n cynnwys hyd at 4 Ymddiriedolwr sy'n Swyddogion Sabothol, 4 Myfyriwr Ymddiriedolwr a 5 Ymddiriedolwr Lleyg.

**Bwrdd yr Ymddiriedolwyr**

- 4 Ymddiriedolwr sy'n Swyddogion Sabothol
- 4 Myfyriwr Ymddiriedolwr
- 5 Ymddiriedolwr Lleyg

# Rhestr o Ymddiriedolwyr presennol



YMDDIRIEDOLWR LLEYG

**John Wallace**

Cadeirydd y Bwrdd



YMDDIRIEDOLWR LLEYG

**Ashley Storer-Smith**

Cadeirydd Iechyd a Diogelwch



YMDDIRIEDOLWR LLEYG

**Dan Priddy**

Cadeirydd Cyllid, Archwilio a Risg

YMDDIRIEDOLWR LLEYG

**Swydd wag**

Cadeirydd Pobl a Diwylliant

YMDDIRIEDOLWR LLEYG

**Swydd wag**

Cadeirydd Marchnata a Masnacheiddio

MYFYRIWR YMDDIRIEDOLWR

**Kate Love**

Myfyriwr Ymddiriedolwr

MYFYRIWR YMDDIRIEDOLWR

**Amy Mercy**

Myfyriwr Ymddiriedolwr



MYFYRIWR YMDDIRIEDOLWR

**Kamrul Choudhury**

Myfyriwr Ymddiriedolwr



MYFYRIWR YMDDIRIEDOLWR

**Galina Bleidere**

Myfyriwr Ymddiriedolwr



YMDDIRIEDOLWR SABOTHOL

**Gwyneira Davies**

Ymddiriedolwr Sabothol, Llywydd Birmingham a Llundain



YMDDIRIEDOLWR SABOTHOL

**Jennifer Taylor**

Ymddiriedolwr Sabothol, Llywydd Caerfyrddin



YMDDIRIEDOLWR SABOTHOL

**Tianran (Rainna) Liu**

Ymddiriedolwr Sabothol, Llywydd Caerdydd ac Abertawe

YMDDIRIEDOLWR SABOTHOL

**Swydd wag**

Ymddiriedolwr Sabothol, Llywydd y Grŵp

# Ein His-bwyllgorau

Mae gan y Bwrdd hefyd dri is-bwyllgor, pob un â'i gylch gwaith ei hun wedi'i ddirprwyo gan Fwrdd yr Ymddiriedolwyr. Mae'r pwyllgorau hyn yn adrodd yn ôl i'r Bwrdd ar eu gweithgaredd. Mae pob is-bwyllgor yn cael cefnogaeth gan y Rheolwr Llywodraethiant a Gweinyddiaeth, sy'n gweithredu fel yr ysgrifennydd.

## Is-Bwyllgor Iechyd a Diogelwch

Mae Iechyd a Diogelwch yn bwysig ym mhob mudiad; mae'r is-bwyllgor hwn yn datblygu, yn cynnal ac yn asesu polisïau a safonau Iechyd a Diogelwch yr UM. Mae'n sicrhau bod yr undeb yn cydymffurfio â deddfwriaeth berthnasol. Yn ogystal â hynny, mae'n sicrhau bod adroddiadau clir rhwng y brifysgol ac undeb y myfyrwyr ynghylch Iechyd a Diogelwch.

Mae'r pwyllgor yn cynnwys un swyddog sabothol, un ymddiriedolwr lleyg ac un myfyriwr ymddiriedolwr. Mae cynrychiolydd o adran Iechyd a diogelwch PCyDDS, y Prif Weithredwr a Phennaeth Busnes a Chyllid yn aelodau ex-officio.

## Is-bwyllgor Pobl a Diwylliant

Mae'n gyfrifol am fonitro ac adolygu: recriwtio a dethol, tâl ac amodau cyflogaeth, y berthynas â'r staff a datblygu staff. Aelodau llawn y pwyllgor yw'r tri Ymddiriedolwr

Allanol (1 fel Cadeirydd - Is-Gadeirydd ByrY), un Myfyriwr Ymddiriedolwr ac aelod allanol wedi'i benodi. Y Prif Weithredwr a Phennaeth Busnes a Chyllid fel aelodau ex officio.

## Is-bwyllgor Cyllid, Archwilio a Risg

Mae'r gyllideb ar gyfer yr undeb yn mynd gerbron yr is-bwyllgor hwn cyn ei chyflwyno i Fwrdd yr Ymddiriedolwyr. Mae'r is-bwyllgor hefyd yn adolygu gwariant ac incwm yr undeb trwy gydol y flwyddyn. Yn ystod adolygiad o'r flwyddyn, mae'n bosibl y bydd yr is-bwyllgor yn argymell unrhyw welliannau i'r gyllideb.

Mae'r pwyllgor hefyd yn sicrhau bod yr holl adroddiadau ariannol statudol a rheoleiddiol priodol yn cael eu cynnal. Mae'r pwyllgor yn cynnwys tri Ymddiriedolwr Sabothol; un Myfyriwr Ymddiriedolwr; un Ymddiriedolwr Lleyg fel aelodau llawn, a chynrychiolydd o adran gyllid PCyDDS. Y Prif Weithredwr a Phennaeth Busnes a Chyllid fel aelodau ex officio.
















## EIN GWASANAETHAU

# Byddwn yn helpu myfyrwyr i gysylltu, darganfod pwy ydyn nhw, a dod o hyd i'w lle yn PCyDDS

Mae profiad myfyriwr yn fwy na mynd i ddarlithoedd yn unig. Yn arwain ein gwaith mae ein timau Llais, Cyfleoedd, a Chynghori - pob un yn cyfrannu mewn ffyrdd ystyrlon i wella'r profiad hwn.

**Mae ein tîm Llais yn arwain ar bopeth sy'n ymwneud â democratiaeth a chynrychiolaeth yn PCyDDS.** Maent yn angerddol am sicrhau bod meddyliau a barn myfyrwyr yn cael eu bwydo'n ôl i'r bobl sydd angen eu clywed. Maen nhw'n rheoli ein rhwydwaith o gynrychiolwyr myfyrwyr, yn gofalu am ein platfform Syniadau Mawr, ac yn gyfrifol am bopeth sy'n ymwneud ag etholiadau myfyrwyr.

**Mae ein tîm Cyfleoedd yn canolbwyntio ar ochr hwyl bywyd myfyrwyr.** Maen nhw'n annog myfyrwyr i archwilio eu diddordebau a'u hangerdd gyda'n clybiau a'n cymdeithasau, neu fwynhau eu hunain gyda'u cyd-fyfyrwyr yn ein digwyddiadau. Mae yna gyfleoedd i gael profiadau gwych gyda Rhowch Gynnig Arni, a datblygu eu sgiliau a'u gwybodaeth gydag Wythnos Sgiliau.

**Mae ein tîm Cynghori ar gael pryd bynnag y mae angen help llaw ar fyfyrwyr.** Maen nhw'n trin ein haelodau fel pobl gyfartal: yno i wrando, nid i farnu, ac i roi cyngor annibynnol a chyfrinachol, am ddim, i'n myfyrwyr ynghylch materion yn yr ystafell ddosbarth a thu hwnt.

CYFLEOEDD MYFYRWYR

# Mae yna fwy i brofiad myfyriwr na dim ond darlithoedd, ac rydym yma i helpu ein haelodau i wneud y gorau ohono

**Nod ein tîm Cyfleoedd yw darparu hwyl. Er mwyn helpu ein haelodau i wneud y gorau o'u profiad fel myfyrwyr, rydym yn cynnal llawer o wahanol weithgareddau wedi'u teilwra i bob un o'n campysau.**

O ymuno â chlybiau a chymdeithasau dan arweiniad myfyrwyr, neu gychwyn un eich hun, i gynnal Wythnos Swyddogol y Glas a darparu profiadau anhygoel gyda Rhowch Gynnig Arni, i ddatblygu eich sgiliau a'ch gwybodaeth gyda'r Wythnos Sgiliau.

## Beth ydym ni'n ei gynnig?

- Gall myfyrwyr gymryd rhan yn ein digwyddiadau trwy gydol y flwyddyn, gan gynnwys cyfnod y Glas ac ail gyfnod y Glas
- Gall myfyrwyr ymuno â chlybiau a chymdeithasau dan arweiniad myfyrwyr, neu gychwyn un eu hunain, gan gynnwys ein chwaraeon cystadleuol (sy'n rhan o BUCS)
- Gallant helpu trwy ymuno â'n rhwydwaith gwirfoddoli ar ei newydd wedd
- Mae ein rhaglen Rhowch Gynnig Arni wedi'i chynllunio i helpu profiadau anhygoel am brisiau y gall myfyrwyr eu fforddio.
- Gallant wella eich sgiliau cyflogadwyedd trwy ddod i'n sesiynau hyfforddi am ddim yn Wythnos Sgiliau



## Yn 2024/25, cynhaliodd ein Tîm Cyfleoedd...

**32** o Ddigwyddiadau Rhowch Gynnig Arni

**45** o Ddigwyddiadau i Fyfyrwyr Newydd

**51** Sesiwn Wythnos Sgiliau

**06** o Ddathliadau'r Haf

**26** grŵp dan arweiniad myfyrwyr

**03** o dimau chwaraeon cystadleuol

LLAIS Y MYFYRIWR

# Mae myfyrwyr yn rym er daioni - mae eu meddyliau, eu gweithredoedd a'u hangerdd yn llunio sut mae pethau'n cael eu gwneud

Rydym yn falch o gael ein harwain gan fyfyrwyr. Trwy ein strwythur democrataidd, mae gan fyfyrwyr lais uniongyrchol yn ein harweinyddiaeth, ac mae eu barn yn llunio'r hyn a wnawn a sut y byddwn yn mynd ati i wneud hynny.

Ein cenhadaeth yw sicrhau bod meddyliau a syniadau ein haelodau'n cael eu clywed gan y rhai sydd angen eu clywed - yn y brifysgol a thu hwnt - ac mae gennym rwydwaith o gynrychiolwyr a swyddogion i'n helpu i wneud hyn.

## Beth ydym ni'n ei gynnig?

- Gall myfyrwyr enwebu a phleidleisio yn ein Hetholiadau Myfyrwyr, a gallant ddod yn Llywydd, Swyddog Rhan-amser, Myfyriwr Ymddiriedolwr, neu'n Gadeirydd yr Undeb.
- Gall ein haelodau ddarganfod beth rydym wedi bod yn ei wneud a phleidleisio ar ein polisïau yn ein Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol, ochr-yn-ochr â'n cynghorau campws a'n cynghorau undeb rydym yn eu cynnal trwy gydol y flwyddyn academaidd.
- Gall myfyrwyr ymuno â'n rhwydwaith o gynrychiolwyr cwrs a chynrychiolwyr llais myfyrwyr i helpu â chasglu adborth ar lawr gwlad.
- Gallant rannu eu syniadau ar ein platfform Syniadau Mawr lle gall myfyrwyr roi eu barn ar gynnig.



## Yn 2024/25 fe wnaethon ni gyflawni ein canran uchaf o bleidleiswyr yn hanes ein hetholiadau, a newid ein strwythur democrataidd gyda rolau newydd ar gyfer swyddogion myfyrwyr

Pleidleisiodd myfyrwyr i newid ein strwythur democrataidd yn ein Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol yn 2024/25 - gan ddisodli ein strwythur swyddogion a llywyddion presennol gydag un newydd sy'n cynnwys 4 llywydd newydd a 25 swyddog rhan-amser newydd.

Yng ngwanwyn 2025, roedd gan fwy o fyfyrwyr nag erioed o'r blaen lais uniongyrchol o ran y bobl sy'n eu cynrychioli, gyda'r nifer fwyaf erioed o fyfyrwyr yn troi allan i bleidleisio.

## CYNGOR I FYFYRWYR

# Gall ein haelodau ddod atom ni i gael cyngor annibynnol a chyfrinachol am ddim, pryd bynnag y bydd ei angen arnynt

**Ein nod yw grymuso ein haelodau i wneud y penderfyniadau sy'n iawn iddyn nhw, trwy eu helpu i gael mynediad at y gefnogaeth gywir a rhoi arweiniad ar brosesau.**

Mae ein gwasanaeth cynghori am ddim; mae'n annibynnol ac yn gyfrinachol. Mae'n arbenigo mewn darparu cyngor academaidd, ond mae hefyd yn helpu myfyrwyr i gael mynediad at gefnogaeth ehangach o fewn y brifysgol a thu hwnt.

Yn 2024/25, agorwyd 952 o achosion ac ymholiadau gyda'n gwasanaeth cynghori (Mae hynny'n gynnydd o 8.8% o'i gymharu â 2023/24). Fe wnaethon nhw gefnogi 40 o achosion lle gwnaed penderfyniad ffafriol, ac roedd ein hymyriad cynnar yn golygu bod 15 o achosion wedi bod yn llwyddiannus yn y cyfnod 'anffurfiol'. A thrwy eiriolaeth, bwrsariaethau a gwaith achos, sicrhaodd myfyrwyr £55,990 o gronfeydd ariannol.

## Beth ydym ni'n ei gynnig?

- Amgylchiadau Esgusodol a Tharfu ag Astudiaethau
- Marciau ac Apeliadau Academaidd
- Mynegi Pryderon a Chwynion
- Camymddwyn Academaidd
- Addasrwydd i Arfer
- Camymddwyn Anacademaidd
- Cymorth ar gyfer Astudio



**"Hoffwn fynegi fy niolchgarwch diffuant i'r Gwasanaeth Cynghori; bu eu hanogaeth a'u cefnogaeth ymarferol yn ystod cyfnod pan oeddwn i'n ddigymorth, yn ofnus ac yn llawn hunan-amheuaeth yn gefn i mi"**

## LLEOLIADAU MYFYRWYR

# Rydym yn cynnal gofod cymdeithasol, bar a chlwb i fyfyrwyr ar ein campws yng Nghaerfyrddin

**Y Llofft yw gofod cymdeithasol a bar y myfyrwyr ar gampws Caerfyrddin sydd wedi'i leoli ar lawr cyntaf adeilad Undeb y Myfyrwyr, a'r Clwb yw'r clwb ar gampws Caerfyrddin, sydd wedi'i leoli ar lawr gwaelod Adeilad Undeb y Myfyrwyr.**

Gofod Cymdeithasol Y Llofft yw'r lle i fyfyrwyr fynd y tu allan i ddarlithoedd i gwrdd â ffrindiau, ymlacio, chwarae ychydig o gemau, ac astudio yn rhywle sydd ag awyrgylch mwy hamddenol.

Yn y Llofft mae yna deledu clyfar, bwrdd pŵl a bwrdd ping-pong am ddim, Sony PlayStation 5, Nintendo Wii - gyda detholiad eang o gemau - a digonedd o gemau bwrdd, llyfrau a ffilmiau.

Diben Bar Myfyrwyr Y Llofft yw diddanu myfyrwyr ac mae'n gweini diodydd a lluniaeth am brisiau sydd o fewn cyrraedd myfyrwyr. Mae ar agor ar nosweithiau dethol yn ystod yr wythnos ac yn cynnal digwyddiadau o bryd i'w gilydd.

Mae'r Clwb yn lleoliad mawr sy'n dod ag awyrgylch clwb i chi, gyda seinyddion pwerus i greu'r gerddoriaeth Pa fath o ddigwyddiadau ydyn ni'n eu cynnal? Meddyliwch am gigs â cherddoriaeth fyw, dawnsfeydd y glas, dawnsfeydd haf, disgos distaw. Mae'r Clwb ar agor ar gyfer digwyddiadau wedi'u cynllunio'n unig.















DEWCH YN YMDDIRIEDOLWR

# Cyfrannwch eich arbenigedd, ac enillwch brofiad o lunio strategaeth, gosod cyllidebau, a gwneud penderfyniadau allweddol

**Rydym yn bwriadu penodi Ymddiriedolwr Pobl a Diwylliant newydd i'n Bwrdd i helpu ag arwain a goruchwylio datblygiad a pherfformiad ein mudiad. Bydd yr Ymddiriedolwr newydd yn dod â syniadau newydd a barn ffres; yn gyfnewid bydd yn derbyn hyfforddiant cynhwysfawr a bydd yn cael profiad gwych ar gyfer eu CV.**

Mae Bwrdd yr Ymddiriedolwyr yn bodoli i sicrhau bod Undeb y Myfyrwyr yn cael ei redeg yn iawn, ei fod yn gofalu am ei adnoddau a'i bobl ac yn gweithio er budd myfyrwyr yn PCyDDS. Bydd ymddiriedolwyr yn ymuno â'n Bwrdd i helpu ag arwain a llunio gwaith y mudiad, i fonitro ei berfformiad, ei gydymffurfiaeth gyfreithiol a'i helpu i gynllunio'n effeithiol.

## Rhesymau dros ddod yn Ymddiriedolwr i ni

### Bywiog, Canolbwyntio ar Bobl, Cydweithredol

Mae Undebau Myfyrwyr yn wahanol i unrhyw fudiad arall – maent yn ddeinamig, yn gweithredu'n gyflym, ac yn esblygu'n gyson i adlewyrchu eu haelodaeth.

Nid oes dau ddiwrnod byth yr un fath: un foment rydym yn cefnogi ymgyrch fawr i fyfyrwyr, y funud nesaf rydym yn dathlu buddugoliaethau myfyrwyr.

Rydym yn fudiad bywiog, sy'n canolbwyntio ar bobl - lle mae creadigrwydd a chydweithio yn ffynnu, a lle mae gan bob syniad y potensial i wneud gwahaniaeth gwirioneddol i fywyd myfyrwyr.

### Gwnewch Wahaniaeth

Mae bod yn un o'n Hymddiriedolwyr yn golygu y byddwch chi'n helpu i osod ein cyfeiriad er mwyn sicrhau ein bod ni'n cyflawni ein cenhadaeth elusennol. Byddwch chi'n chwarae rhan allweddol wrth sicrhau bod y mudiad yn cael ei redeg yn dda, yn ddiogel yn ariannol, ac yn canolbwyntio ar gyflawni newid cadarnhaol i'n haelodau. Mae pob penderfyniad a wnewch yn cyfrannu at waddol o wella profiad y myfyriwr.

### Cyfrannwch Eich Sgiliau a Gwellwch Eich Gwybodaeth

Mae bod yn un o'n Hymddiriedolwyr yn gyfle gwych i ennill profiad go iawn mewn arweinyddiaeth, llywodraethiant a strategaeth. Byddwch chi'n gweithio ochr-yn-ochr â myfyrwyr ac ymddiriedolwyr allanol, gan gael cipolwg ar sut mae elusennau'n gweithredu a dysgu sut i wneud penderfyniadau ar lefel y bwrdd. Mae'n brofiad sy'n edrych yn wych ar CV - ond yn bwysicach fyth, mae'n gyfle i gyfrannu eich arbenigedd.

### Ehangu Eich Rhwydwaith

Daw'r Ymddiriedolwyr o gefndiroedd gwahanol, ond mae gan bob un ohonynt un nod: gwneud Undeb y Myfyrwyr y gorau y gall fod. Byddwch yn cydweithio ag arweinwyr staff a myfyrwyr i sicrhau bod yr Undeb yn aros yn driw i'w werthoedd a'i bwrpas, gan gydbwyso uchelgais ag atebolrwydd. Mae'n rôl werth-chweil, sy'n cael ei harwain gan dîm, lle mae eich safbwynt yn wirioneddol bwysig.

## Ymunwch â'n Bwrdd

Ewch i'n tudalen we Gweithio Gyda Ni yn **www.uwtsdunion.co.uk/about/work-with-us** i weld pa rolau sydd ar gael.




Undeb Myfyrwyr PCYDDS
UWTSD Students' Union

Mae Undeb Myfyrwyr PCyDDS yn elusen sydd yma i helpu myfyrwyr PCyDDS i wneud y gorau o'u hamser yn y brifysgol trwy gynghori, cynrychiolaeth, cyfleoedd a digwyddiadau.

Rhif Elusen Gofrestredig yng Nghymru a Lloegr: 1157951. Cwmni Cyfyngedig dan warant: 09103924

www.uwtsdunion.co.uk • union@uwtsd.ac.uk • @uwtsdunion